*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX
Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 17EG AWST, 2023** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 15 AWST 2023, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.
MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 20.07.23**

Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir.

**5 - 10**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 22/0734**

Estyniad i ystafelloedd newid traddodiadol presennol wedi'u hadeiladu o frics/blociau. (Derbyniwyd Arolwg Ystlumod ac Adar ar 07/11/22) (Derbyniwyd Arolwg Gweithgarwch Ystlumod ar 14/07/23)

**YSTAELLOEDD NEWID PENYRENGLYN, STRYD BAGLAN, TREHERBERT, TREORCI, CF42 5AW**

**11 - 18**

**6. CAIS RHIF: 22/1272**

Adeiladu a gweithredu hyd at 14 o dyrbinau gwynt a seilwaith cysylltiedig gan gynnwys: ardaloedd llawr caled i gynnwys sylfeini tyrbinau, ardal ar gyfer craeniau a man storio, gydag ystyriaeth i'r broses o bennu lleoliad; is-orsaf drydanol ac adeilad rheoli gyda cheblau pŵer tanddaearol; llwybr mynediad newydd yn cysylltu â'r A472; llwybrau mynediad ar y safle gyda phiblinellau a chroesfannau cwrs dŵr; pwll (pyllau) benthyg; mast mesur y gwynt; safle adeiladu a storio dros dro gyda mannau storio cysylltiedig ger mynedfa'r safle; ardal rheoli cynefinoedd; a gwaith oddi ar y safle ar gyfer cerbydau nwyddau sy'n wahanol i'r arfer megis adeiladu mannau gor-redeg ac addasiadau dros dro i gelfi stryd.

**TIR I'R GOGLEDD O SENGHENYDD, CAERFFILI, I'W ADNABOD FEL PARC YNNI TWYN HYWEL**

**19 - 76**

7. **CAIS RHIF: 22/1321**

Newid defnydd o gartref preswyl i gartref gofal i blant (C2)
**41 HEOL Y COED, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RH**

**77 - 88**

8. **CAIS RHIF: 22/1378**

Amrywio amod 1 o ganiatâd cynllunio 15/1635/10 - ychwanegu blwyddyn at y terfyn amser ar gyfer dechrau datblygu (Derbyniwyd Nodyn Gwybodaeth am Ddraenio 10/02/23, Diwygiad 2 - 10/07/23, ar 16/06/23).
**FFERM LLWYNCELYN, LÔN HAFOD, PORTH, CF39 9UE**

**89 - 118**

9. **CAIS RHIF: 22/1433**

Datblygiad arfaethedig o ddwy annedd, maes parcio a gwaith cysylltiedig.
**TIR GWAG YN STRYD WILLIAM, YSTRAD, PENTRE**

**119 - 132**

10. **CAIS RHIF: 22/1476**

Cadw tirffurf yn barhaol a grëwyd trwy ddyddodi tua 19,700m3 o ddeunydd o dirlithriad Tylorstown, creu llwybr troed newydd yn cynnwys dwy bont droed, gwaith draenio ynghyd â gwaith tirlunio a mesurau lliniaru cynefinoedd/ecolegol a gwaith cysylltiedig.
**TIR GYFERBYN Â PHARC BUSNES MAES-Y-DERI, GLYNRHEDYNOG**

**133 - 166**

11. **CAIS RHIF: 22/1477**

Cadw tua 740m3 o ddeunydd yn barhaol o dirlithriad Tylorstown, gwaith tirlunio a mesurau lliniaru cynefinoedd/ecolegol a gwaith cysylltiedig.
**TIR I'R DE O HEOL YR ORSAF, GLYNRHEDYNOG**

**167 - 200**

12. **CAIS RHIF: 23/0398**

Newid defnydd o dŷ amlfeddiannaeth (defnydd C4) i gartref i blant a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd cynllun lleoliad safle diwygiedig ar 08/06/2023)
**37 STRYD ELISABETH, ABERDÂR, CF44 7LN**

**201 - 210**

13. **CAIS RHIF: 23/0433**

Uned archebu coffi drwy ffenestr y car (Defnydd A1/A3 Cymysg) a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddosbarth defnydd ar 09/06/23)
**ASDA STORES LTD, FFORDD TIRWAUN, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0AH**

**211 - 232**

14. **CAIS RHIF: 23/0651**

Gosod poster digidol LED wedi'i oleuo'n fewnol yn lle'r poster hysbysebu wedi'i ôl-oleuo presennol.
**THEATR Y COLISËWM, STRYD BRYN HYFRYD, TRECYNON, ABERDÂR CF44 8NG**

**233 - 240**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**15. CAIS RHIF: 23/0506**

Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu cartref gofal preswyl arbenigol ag 16 ystafell wely (dosbarth defnydd C2) a gwaith cysylltiedig
**TIR Y TU ÔL I RIFAU 15 AC 16 FFORDD Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9PS**

**241 - 270**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**16. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 24/07/2023 – 04/08/2023.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**271 - 280**

**17. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**
**Cylchrediad: -**
**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson and Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd